| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **29 Ionawr 2014** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol** |
| **Teitl:** | **Cynllun Gweithredu Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn darparu cynllun gweithredu wedi'i ddiweddaru i'r Pwyllgor o ganlyniad i'r adolygiad o fframwaith llywodraethu'r Cyngor a Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2012/13.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Bydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn monitro Cynllun Gweithredu'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn rheolaidd fel rhan o drefniadau llywodraethu cyffredinol y Cyngor i sicrhau fod y Cyngor yn cyflwyno'r gwelliannau angenrheidiol yn effeithiol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Dylai'r Pwyllgor ystyried a gwneud sylwadau ar Gynllun Gweithredu drafft y Fframwaith Lywodraethu Corfforaethol ac a oes angen unrhyw wybodaeth bellach arno ar y meysydd sydd wedi'u trafod yn y Cynllun Gweithredu.

## 4. Cefndir

4.1 Mae Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor yn cynnwys asesiad blynyddol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor a Datganiad Llywodraethu Blynyddol sy'n amlygu unrhyw wendidau llywodraethu arwyddocaol. Mae'r Fframwaith hefyd yn amlygu meysydd pellach sy'n dal angen eu gwella, er nad ydynt yn wendidau arwyddocaol.

4.2 Mae Grŵp Llywodraethu'r Cyngor yn rheoli proses y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol a datblygiad y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn barhaus yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r Grŵp hwn yn cynnwys:

- Cadeirydd Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
- Is-Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
- Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd
- Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio
- Pennaeth Cyllid ac Asedau
- Pennaeth Archwilio Mewnol

4.3 Mae'r Grŵp Llywodraethu wedi datblygu'r Cynllun Gweithredu yn Atodiad 1, sydd wedi'i ddiweddaru ers ein hadroddiad diwethaf i ddangos y cynnydd hyd yma a'r amserlenni arfaethedig.